6ED O FEDI


# Ysgol Treganna

**Cylchlythyr wythnosol**



## Wythnos yma

Croeso nol i bawb i dymor yr Hydref ac rydym yn edrych ymlaen at flwyddyn brysur a chyffrous arall yn ysgol Treganna!  Croeso arbennig i'r plant Meithrin a Derbyn a'r disgyblion newydd sydd wedi dechrau yn yr ysgol yr wythnos hon. Mae pawb wedi ymgartrefu yn wych ac mae wedi bod yn hyfryd croesawu holl deulu Treganna nol i'r ysgol.
Mae dyddiadau'r tymor wedi eu danfon atoch yr wythnos yma gan gynnwys manylion am ddyddiadau HMS y flwyddyn. Byddwn yn ychwanegu at y dyddiadau yma yn ystod y tymor ac yn cadarnhau yn union pa ddyddiadau fydd sioeau Nadolig mis Rhagfyr.
Ar ddechrau'r tymor hoffwn eich atgoffa i'n hysbysu os mae cyfeiriadau neu eich rhifau ffôn argyfwng wedi newid. Rydym ar hyn o bryd dal yn defnyddio Xpressions i gyfathrebu gyda rhieni ond yn ystod y tymor byddwn yn newid i ddefnyddio platfform Group Ed. Gofynnwn yn garedig i bawb lawr lwytho'r ap, mae cyfarwyddiadau sut i wneud hyn wedi eu cynnwys isod. Byddwn yn eich hysbysu pryd fyddwn yn trosglwyddo  i ddefnyddio Group Ed.




## Calendr

**09/09/24**
**Wythnos darganfod ym mhob dosbarth**

**09/09/24**
**Clybiau yn ail ddechrau**

## Clybiau

Dyma'r clybiau sydd wedi eu trefnu ar gyfer yr hanner tymor yma. Bydd y clybiau yn cychwyn nos Lun nesaf, y 9fed o Fedi. Mae'r clybiau yn agored i bawb ond gofynnwn i chi gofrestru eich plant ar Parent Pay.

| Llun | Clwb Ffitrwydd<br>Clwb Pêl-droed | Blwyddyn 3<br>Blwyddyn 5 a 6 |
|---|---|---|
| Mercher | Clwb Pêl-droed<br>Clwb Ffilm | Blwyddyn 4<br>Blwyddyn 5 a 6 |
| Iau | Clwb Garddio<br>Clwb Pêl-rwyd | Blwyddyn 3 a 4<br>Blwyddyn 5 a 6 |

## Sesiynau Cwrdd â'r Athro

Mae sesiynau Cwrdd â'r Athro wedi eu trefnu ar gyfer mis yma.  Bwriad y sesiynau yma yw rhoi cyfle i rieni/ gwarcheidwaid i gyfarfod athrawon y dosbarth, i holi cwestiynau ac i dderbyn gwybodaeth am drefniadau'r dosbarth. Oherwydd diffyg lle a goruchwyliaeth gofynnwn yn garedig i rieni yn unig  fynychu'r sesiynau yma.

| | | |
|---|---|---|
| 16/9/24 | Noson agored y Derbyn | 4.15-4.45 |
| 17/9/24 | Noson Agored Bl 2 a Bl 4 | 4.15-4.45 |
| 18/9/24 | Noson Agored B l 3, Bl 5 a Bl 6 | 4.15-4.45 |
| 19/9/24 | Noson Agored Bl 1 | 4.15-4.45 |

## Cerdded adref

Mae nifer o ddisgyblion blwyddyn 6 yn cerdded adref o'r ysgol. Awgrymwn yn gryf mai plant Blwyddyn 6 yn unig ddylai fod yn cerdded adref ar ben eu hun. Gofynnwn yn garedig i chi ddanfon e-bost at swyddfa'r ysgol yn rhoi caniatâd i'ch plentyn i gerdded adre. Ni fyddwn yn caniatáu i'r disgyblion yma i gasglu brodyr a chwiorydd iau o ddosbarthiadau i gerdded adref.

## Paentio

Rydym yn awyddus i baentio ardaloedd mewnol yr ysgol ac yn chwilio am gwmni a fyddai'n gallu ein cynorthwyo. Os oes gennych unrhyw gysylltiadau neu yn ymwybodol o gwmnïau lleol cysylltwch gyda'r ysgol.

## Dillad ymarfer corff

Ar ddechrau'r tymor hoffem ofyn yn garedig i chi sicrhau bod eich plant yn gwisgo gwisg ymarfer corff i ddod i'r ysgol ar ddiwrnodau Addysg Gorfforol y dosbarth. Mae'r wisg yma yn cynnwys trowsus ymarfer corff/ leggings du , crys T cymuned a siwmper ysgol Treganna. Ni fyddwn yn caniatáu leggings a siwmperi lliwgar ar ddiwrnodau ymarfer corff. Diolch yn fawr.

## Patrwm Iaith

**Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos**

Ga i…os gwelwch yn dda?

**Her**

Oes modd i mi gael…os gwelwch yn dda?

A fyddai'n bosib…?

**Testun trafod yr wythnos**

Pe bai gen i dri dymuniad…

**Cân yr wythnos**

Mali Haf- Swsh!

**Idiom yr wythnos**

Heb siw na miw